

**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Dydd Iau 28<sup>ain</sup> Medi 2017**

**Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Caerfyrddin, 6pm**

**Yn bresennol:**

**Aelodau:**

Mark Hadley (MH) – Cadeirydd  
Karen Burch (KB) – Is-gadeirydd  
Jillie Gardiner (JG)  
Glyn Evans (GE)  
Caroline Evans (CE)  
Geoff Williams (GW)  
Keith Morgan (KM)

**Ysgrifennydd (dros dro)**

Lucy Pugh (LP) – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad Dros Dro CSC

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd**

Cliff Cleaton (CC) - Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC Dros Dro  
Phil Snaith (PS) – Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin  
Martin Murray (MM) - (Cynrychiolydd Cynnal a Chadw CSC)  
Anne Marshall (AM) – Aelod o'r Cyhoedd  
Cyng. Peter Hughes-Griffiths (PHG) – Aelod o Fwrdd Gweithredol CSC  
Paul Barrett (PB) – Cerddwyr Llanelli

**Ymddiheuriadau (Aelodau)**

Jane Evans (JE)  
Richard Leggett (RL)  
David Stacey (DS)  
Ed Percy (EP)

**Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr/Sylwedyddion)**

Simon Charles (SC) - CSC

\*Yn y cofnodion hyn mae CSC yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	CAMAU I'W CYMRYD
<b>Eitem 1 Gair o Groeso a Chyflwyniad</b>  Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Paul Barratt i'r aelodau.	
<b>Eitem 2 Aelodau Newydd/Ymddiswyddiadau</b>  Dim.	
<b>Eitem 3 Ymddiheuriadau</b>  Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.	

<p><b>Eitem 4 Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</b></p> <p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo</p> <p>Bydd LP yn eu hanfon i gael eu cyfieithu ac yn eu cyhoeddi ar y wefan.</p>	<p>LP</p>
<p><b>Eitem 5 – Materion yn Codi o'r Cofnodion</b></p> <p>Eitem 4 – Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Morfa Bychan</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• MH – roedd y Gorchymyn wedi'i fwriadu ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref, ond oherwydd oedi yn y prosesu bellach bydd am y cyfnod o fis Awst i fis Chwefror.</li> <li>• MH – gofynnodd am eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.</li> <li>• GW – yn destun gofid bod y cyfle wedi'i golli i gael y Gorchymyn gydol yr haf ac mae'n gobeithio/yn gofyn am iddo gael ei wneud mewn pryd y flwyddyn nesaf.</li> </ul> <p>Eitem 16 – Adroddiad Blynyddol y Fforwm i gael ei lofnodi'n derfynol a'i gylchredeg.</p>	<p>LP</p>
<p><b>Eitem 6 – Llwybr Dyffryn Tywi</b></p> <p>Rhoddodd KB ddiweddariad ar ei chyfarfod, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag archwilio cyfleoedd marchogaeth. Roedd yn ddigalon clywed yr un esgusodion gan staff y cyngor sy'n edrych ar fynediad beicio ag a oedd yn cael eu cynnig ddeng mlynedd yn ôl, yn enwedig o ran lled ac wyneb, ac nad yw perchenogion tir am gael ceffylau ar y llwybr. O siarad â'r perchenogion tir yr effeithir arnynt, awgrymodd nad ar eu rhan nhw y mae'r rhagfarn ond fod diffyg cefnogaeth ar ran yr awdurdod i fynediad ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr.</p> <p>Gofynnodd MM a fyddai staff yn cael eu neilltuo i gynnal a chadw'r llwybr.</p> <p>CC – Steve Pilliner sy'n rheoli'r Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus erbyn hyn (ar wahân i Gynnal a Chadw Hawliau Tramwy – sy'n dal gyda Hamdden).</p> <p>MH – bydd yn codi'r angen i benderfynu ar y gwaith cynnal a chadw ar lwybrau sy'n cael eu creu yn y cyfarfod gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.</p> <p>MH – hoffai weld yr adroddiad llawn ar Llwybr Dyffryn Tywi a bydd yn gofyn am hynny yn y cyfarfod gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.</p> <p>CE – mae angen dal i wthio am i'r llwybr gysylltu â gorsaf reilffordd Llandeilo.</p> <p>KB – mae angen eglurder o hyd ynglŷn â statws Llwybr arfaethedig Dyffryn Tywi.</p> <p>GW – ni fyddai unrhyw rannau caniataol yn addas ar gyfer Teithiau Tywys y Cerddwyr gan na fyddent yn dod o dan yr yswiriant.</p>	<p>MH</p> <p>MH</p>

<p><b>Eitem 7 – Fferm Wynt Brechfa</b></p> <p>Darllenodd MH ebost a ddarparwyd gan Jason Lawday yn uchel.</p> <p>CE – nid oes unrhyw wybodaeth wedi dod i law am gyllid.</p> <p>KB – oes llwybrau newydd yn cael eu mapio, ac ar gael?</p> <p>AM – mae mapiau ar gael yn Keepers, ond nid ydynt yn glir iawn. Mae yna wefan gyda rhagor o fanylion.</p> <p>Gofynnodd MH am wybodaeth am y wefan a'r mapiau – CE i ddarparu cyswllt.</p> <p>CC – mae Jason Lawday yn cynnal trafodaethau am welliannau i'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Eto, mae angen ystyried cynnal a chadw cyson.</p> <p>MH – rhaid i unrhyw waith sy'n cael ei wneud fod yn y manau lle mae pobl am iddo gael ei wneud!</p>	<p>CE / MH</p>
<p><b>Eitem 8 – Adolygiad o Deithiau Cerdded y Sir</b></p> <p>Rhannodd MM daflenni a rhoddodd drosolwg o sut y datblygodd Teithiau Cerdded y Sir.</p> <p>Cafwyd trafodaeth gyffredinol fod mapiau /taflenni papur yn hen ffasiwn efallai ac mai apiau ar gyfer ffonau clyfar fyddai'r ffordd ymlaen. Mae angen gwella gwefan Darganfod Sir Gâr gan ei bod yn anodd iawn dod o hyd i daflenni'r teithiau sy'n cael eu hyrwyddo arni.</p> <p>Holodd GW ynglŷn ag adnewyddu'r taflenni.</p> <p>Eglurodd MM arddull y taflenni ar eu newydd wedd.</p> <p>CE – byddai angen mapiau papur o hyd ar bobl sydd heb fynediad i'r rhyngwyd.</p> <p>KB – mae taflenni'n fwy hwylus i'w cario na mapio Arolwg Ordnans.</p> <p>MH – yn bendant, mae angen taflenni papur a mapiau o hyd.</p> <p>GW – mae Canolfan Groeso Llanymddyfri yn dal i ddefnyddio llawer o daflenni.</p> <p>Gofynnodd KB a oedd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â Theithiau Cerdded y Sir ar ryw adeg benodol, ynteu a oeddent yn cael eu hychwanegu dros amser.</p> <p>MM – ychwanegir atynt, ac adolygir nhw dros amser.</p> <p>KB – ydy'r galw am y llwybrau wedi newid?</p> <p>MM – mae Canolfannau Croeso yn lle da i ddarparu taflenni. Os nad oes</p>	

<p>unedau addas lle gellir rhoi'r taflenni, mae'n gallu bod yn anodd hyrwyddo'r llwybrau.</p> <p>GE – Bronwydd – cytunwyd ar ddargyfeiriad. Pam nad yw'r llwybrau caniatol wedi cael eu cynnal a'u cadw?</p> <p>MM – rhoddir blaenoriaeth i lwybrau sydd wedi'u cofrestru, nid rhai caniatol.</p> <p>MH – ydy hi'n synhwyrol creu llwybrau newydd pan nad ydym yn gallu cynnal y rhai presennol?!</p> <p>GW – mae mwy a mwy o arweinwyr teithiau'n dod yn ôl ac yn dweud nad yw llwybrau'n hygyrch oherwydd problemau.</p> <p>PS – dylai Llwybr Dyffryn Tywi fod yn gymharol hawdd ei gynnal os caiff ei adeiladu'n dda.</p> <p>CE – thema Croeso Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf yw “Blwyddyn y Môr”.</p> <p>MM – bellach mae gennym Swyddog Llwybr yr Arfordir, wedi'i ariannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru!</p> <p>GW – ond a yw'n dod gyda chyllideb?</p> <p>MM – rhywfaint o gyllideb...</p> <p>MH – dylai'r tîm Cynnal a Chadw ystyried cyfuno'i adnoddau gyda'r unedau Twristiaeth a Marchnata Teithiau Cerdded sy'n cael eu Hyrwyddo.</p>	
<p><b>Eitem 9 – Recriwtio Aelodau i'r Fforwm</b></p> <p>Nid oes unrhyw un ar y Fforwm yn cynrychioli pobl llai abl, na Cyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>MH i wahodd Cyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>CC i ofyn i gyswllt y Prif Weithredwr am awgrymiadau o ran cynrychiolaeth i'r rhai llai abl.</p>	<p>MH</p> <p>CC</p>
<p><b>Eitem 10 – Recriwtio i'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad</b></p> <p>CC – yn disgwyl cynnal cyfweiliadau am swydd swyddog. Mae swydd Cynorthwydd Chwiliadau wedi'i hysbysebu gydag asiantaeth; mae aelod o'r staff yn gwneud y swydd ar hyn o bryd. Bydd ymgynghorydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhai Gorchmynion.</p> <p>MH – a all y sawl sy'n gwneud y Chwiliadau sicrhau bod ymgynghoriadau cynllunio yn cael eu hanfon at y Fforwm drwy MH?</p>	<p>LP</p>

<p><b>Eitem 11 – Adroddiadau ar Broblemau ar y Rhwydwaith</b></p> <p>Cafodd yr adroddiadau eu cylchredeg o amgylch y bwrdd.</p> <p>KB – oes modd ychwanegu statws llwybrau?</p>	<p>LP</p>
<p><b>Eitem 12 – Diweddariad ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</b></p> <p>Rhoddodd CC ddiweddariad – mae'r ymgynghoriad yn dal i fynd rhagddo ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, mae'n unol â'r rhaglen. Drafft i'w anfon at y Fforwm cyn gynted ac y bydd ar gael.</p>	<p>CC</p>
<p><b>Eitem 13 – Materion i fynd â nhw i'r Cyfarfod gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth</b></p> <p>PHG i fynd i'r cyfarfod.</p> <p>Cadarnhaodd MH ddyddiad y cyfarfod (20<sup>fed</sup> Hyd) ac amlinellodd y materion a gaiff eu codi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefelau staffio</li> <li>• Cynnydd yn nifer y materion cyfreithiol</li> <li>• Trafod Memorandwm Dealltwriaeth</li> <li>• Llwybr Dyffryn Tywi – gofyn am gopi o'r adroddiad a'r strategaeth cynnal a chadw i'r dyfodol?</li> <li>• Fferm wynt Brechfa – i ble mae'r arian yn mynd – dylid ymgynghori â'r Fforwm ar hyn.</li> </ul> <p>Awgrymodd PS fod arian yn cael ei ddosrannu i ffyrdd a llwybrau beicio yn ôl hyd y rhwydwaith – “grant bloc”.</p> <p>Holodd KB o faint yr oedd y gyllideb Hawliau Tramwy / Cefn Gwlad wedi'i thorri.</p> <p>KB – dylai'r Fforwm ystyried cael strategaeth farchogaeth.</p> <p>Awgrymodd JG y dylai KB amlinellu i'r Penaethiaid Gwasanaeth yr amserlenni y mae angen datrys materion oddi mewn iddynt.</p> <p>MM – byddai'n well i lwybrau trefol gael eu cynnal a'u cadw gan y Priffyrdd yn hytrach na'r uned Hawliau Tramwy.</p> <p>PHG – dylai'r cyfarfod gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth benderfynu pwy sy'n cynnal a chadw beth, a phenderfynu ar gylch gwaith Cyngorau Tref a Chymuned mewn perthynas â llwybrau.</p>	
<p><b>Eitem 14 Eitemau Agenda ar gyfer y Dyfodol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Morfa Bychan</li> <li>- Strategaeth Farchogaeth</li> <li>- Fferm Wynt Brechfa</li> <li>- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft</li> <li>- Proses y Gorchymynion Rheoleiddio Traffig</li> </ul>	

## Eitem 15 – Unrhyw Fater Arall

### Nant Gronw

AM – mae angen cynnal a chadw Nant Gronw.

Gofynnodd MM a oeddid wedi cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am waith cynnal a chadw?

AM – na – nid oedd yn gwybod â phwy i gysylltu.

Rhoddodd MM hanes Nant Gronw yn fyr. Y cyswllt yn Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cynnal a chadw yw Russell Jones.

KB – mae'r arwyddion o'r ffordd yn pwyntio tuag at y lle parcio wedi mynd.

CC – Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am yr arwyddion.

MH – efallai y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol?

### Saethu yn Felin-wen

Dywedodd MH fod Jason Lawday yn delio â'r mater hwn.

### Ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Cymru'n Gynaliadwy

MH – byddai'n briodol i'r Fforwm ymateb i'r adrannau sy'n ymdrin â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a strwythur Fforymau Mynediad Lleol, ac i aelodau eraill ymateb yn unigol yn ôl y meysydd sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

JG i anfon ymateb y Fforwm.

KB – mae'r rhai sy'n marchogaeth am gael pethau gwahanol i berchenogion tir pan fyddir yn trafod marchogaeth ar lwybrau troed.

Amlinellodd CC ymateb Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – mae'n syniad braf mewn egwyddor, ond byddai'n anodd ei weithredu.

MM – byddai angen swm enfawr o arian.

Cytunwyd yn gyffredinol y byddai'n rhaid i grwpiau defnyddwyr gytuno ar lwybrau penodol sy'n addas, yn hytrach na chynnwys y llwybrau i gyd.

CE – ni ddylai llwybrau troed drwy fynwentydd fod ar gael i farchogion a beicwyr – dylent fod yn lleoedd lle ceir heddwch a chyfle i fyfyrion dawel.

Darllenodd MH ymateb a awgrymwyd gan Richard Leggett a oedd yn cwmpasu'r pwyntiau i gyd.

JG – mae angen diffinio'n fanylach beth yw "parciau a gerddi" yng nghydestun y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

<p>PS – a ddylai defnydd estynedig o lwybrau troed (gan feicwyr a marchogion) fod yn system optio i mewn neu optio allan?</p> <p>JG – a ddylai fod statws statudol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy o fewn y gyfundrefn gynllunio?</p> <p>Bydd JG yn anfon ymateb drafft i gynnig sylwadau arno – i'w ddychwelyd erbyn dydd Sadwrn a.m. a'i gyflwyno erbyn dydd Sadwrn p.m.</p>	<p>Aelodau / JG</p>
<p><b>Eitem 18 Y Cyfarfod Nesaf</b></p> <p>7<sup>fed</sup> Rhagfyr 2017 – Canolfan Tywi, Llandeilo.</p> <p>Y lleoliad, dyddiad ac amser wedi'u cyhoeddi ar y wefan:</p> <p><a href="http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-llleol.aspx#.Wnob_3zLjcs">http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-llleol.aspx#.Wnob_3zLjcs</a></p>	